# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 12fed o Ebrill 2023 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Carys Morgan, Wyn Jones, Ruby Williams, Gerallt Davies a Hywel Lloyd

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Jocelyn Andrew a Wyn Evans.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth a'u cafwyd yn gywir.

**Cyfrifon y flwyddyn:**
Cyflwynwyd y cyfrifon am y flwyddyn i 31.03.2023 ac fe'u derbyniwyd.

**Mater cynllunio:**
Rhif Cais A230190
Abermarlais, Llwyncelyn, Aberaeron.
Annedd newydd arfaethedig ac adeiladu sied amaethyddol gyda gweithiau cysylltiedig gan gynnwys adeiladu pwll newydd.
Dim gwrthwynebiad ond yr unig gonsern oedd mae dim ail osod yw'r annedd ond ei fod yn adeilad newydd fydd yn weladwy i'r ardal gyfagos.

**Anfonebau:**
Cyfrifwyr Aeron - £144.00.
Yswiriant Zurich - £241.00.

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies fod palmant ar waelod Rhiw Goch yn methu cael ei orffen ar hyn o bryd achos fod yna gŵyn gan un o'r trigolion.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 10fed o Mai 2023.